



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2018 Rhif 400 (Cy. 70)

2018 No. 400 (W. 70)

TRETHI, CYMRU

TAXES, WALES

Rheoliadau Awdurdod Cyllid
Cymru (Pwerau i Ymchwilio i
Droseddau) 2018

The Welsh Revenue Authority
(Powers to Investigate Criminal
Offences) Regulations 2018

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu bod darpariaethau amrywiol yn Neddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (“Deddf 1984”) a Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 (“Deddf 2001”) i'w cymhwyso i ymchwiliadau i droseddau a gynhelir gan Awdurdod Cyllid Cymru (“ACC”).

These Regulations provide for various provisions of the Police and Criminal Evidence Act 1984 (“the 1984 Act”) and the Criminal Justice and Police Act 2001 (“the 2001 Act”) to be applied to the investigation of offences conducted by the Welsh Revenue Authority (“WRA”).

Mae rheoliad 3(1) yn cyflwyno'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn, sy'n pennu'r darpariaethau yn Neddf 1984 sydd i'w cymhwyso i ymchwiliadau a gynhelir gan ACC, yn ddarostyngedig i addasiadau penodol. Y darpariaethau cymwys yn Neddf 1984 a gynhwysir yn yr Atodlen yw—

Regulation 3(1) introduces the Schedule to these Regulations which specifies the provisions of the 1984 Act which are to be applied to investigations conducted by WRA, subject to certain modifications. The applicable provisions of the 1984 Act contained in the Schedule consist of—

- (a) pŵer i wneud cais am warant a chael gwarant gan ynad heddwch i awdurdodi mynediad i fangre a'i chwilio (adran 8 o Ddeddf 1984);
- (b) pŵer i gael mynediad i ddeunydd eithriedig neu ddeunydd gweithdrefn arbennig (fel y diffinnir “excluded material” a “special procedure material” yn Rhan 2 o Ddeddf 1984), yn ddarostyngedig i gael gwarant gan farnwr yn unol â'r weithdrefn yn Atodlen 1 i Ddeddf 1984 (adran 9 o Ddeddf 1984);
- (c) rhagofalon amrywiol mewn perthynas â chais am warant a gweithredu chwiliadau (adrannau 15 ac 16 o Ddeddf 1984);
- (d) pŵer i ymafael mewn eitemau perthnasol y deir o hyd iddynt yn ystod chwiliad (adran 19 o Ddeddf 1984);

- (a) a power to apply for and obtain a warrant from a justice of the peace to authorise the entry and search of premises (section 8 of the 1984 Act);
- (b) a power to obtain access to “excluded material” or “special procedure material” (defined in Part 2 of the 1984 Act), subject to obtaining a warrant from a judge in accordance with the procedure in Schedule 1 to the 1984 Act (section 9 of the 1984 Act);
- (c) various safeguards in relation to an application for a warrant and the execution of searches (sections 15 and 16 of the 1984 Act);
- (d) a power to seize relevant items found during the course of a search (section 19 of the 1984 Act);

- (e) estyn y pwerau ymafael i'w gwneud yn ofynnol i wybodaeth a gynhwysir ar ffurf electronig gael ei chyflwyno yn ystod chwiliad (adran 20 o Ddeddf 1984);
- (f) pŵer sy'n galluogi ACC i gopïo gwybodaeth yr ymafaelwyd ynddi yn ystod chwiliad, a hawliau cysylltiedig i berchnogion eiddo yr ymafaelir ynddo yn ystod chwiliad (adran 21 o Ddeddf 1984);
- (g) pŵer i gadw unrhyw beth yr ymafaelir ynddo yn ystod chwiliad (adran 22 o Ddeddf 1984);
- (h) gofyniad i ACC hysbysu person a gyfwelwyd mewn perthynas â throsedd yn ysgrifenedig pan benderfynir dod â'r ymchwiliad i ben (adran 60B o Ddeddf 1984); ac
- (i) gofyniad i ACC rhoi sylw i'r codau ymarferer ddyroddir o dan adran 66 o Ddeddf 1984 pan fo'n cynnal ymchwiliad perthnasol.

Mae rheoliad 3(2) yn darparu bod y darpariaethau a gynhwysir yn Rhan 2 o Ddeddf 2001 (sydd, ymysg pethau eraill, yn darparu ar gyfer pwerau ymafael ychwanegol) hefyd yn gymwys pan fo ACC yn cynnal ymchwiliad perthnasol.

Mae rheoliad 3(3) yn gwneud darpariaeth gyffredinol mewn perthynas â chymhwyso darpariaethau Deddf 1984 a Deddf 2001. Effaith y paragraff hwn yw darparu yn gyffredinol ar gyfer rhoi "WRA" yn lle "constable", "police officer" a "the police" wrth gymhwyso darpariaethau Deddf 1984 a Deddf 2001.

Mae rheoliad 3(4) yn darparu y bydd darpariaethau Deddf 1984 nad ydynt yn cael eu pennu yn yr Atodlen yn gymwys i'r graddau y maent yn ymwneud â'r darpariaethau a bennir yn yr Atodlen. Er enghraifft, mae'r diffiniad o "excluded material" yn adran 11 o Ddeddf 1984 i fod yn gymwys er mwyn diffinio "excluded material" mewn perthynas â chwiliad a gynhelir gan ACC drwy ddibynnu ar warant a ddyroddir o dan baragraff 12 o Atodlen 1 i Ddeddf 1984.

Mae rheoliad 4 yn darparu y caiff person sy'n arfer swyddogaeth a roddir i ACC gan y Rheoliadau hyn ddefnyddio grym rhesymol, os yw hynny'n angenrheidiol, wrth arfer y swyddogaeth honno.

Regulation 3(2) provides that the provisions contained in Part 2 of the 2001 Act (which, among other things, provide for additional powers of seizure) also apply when WRA conducts a relevant investigation.

Regulation 3(3) makes general provision in relation to the application of the provisions of the 1984 Act and the 2001 Act. The effect of this paragraph is to provide for the general substitution of "constable", "police officer" and "the police" with "WRA" in applying the provisions of the 1984 Act and the 2001 Act.

Regulation 3(4) provides that the provisions of the 1984 Act which are not specified in the Schedule are to apply so far as they relate to the provisions specified in the Schedule. For example, the definition of "excluded material" in section 11 of the 1984 Act is to apply to define "excluded material" in relation to a search conducted by WRA in reliance of a warrant issued under paragraph 12 of Schedule 1 to the 1984 Act.

Regulation 4 provides that a person exercising a function conferred on WRA by these Regulations may use reasonable force, if necessary, in the exercise of that function.

Mae rheoliad 5 yn darparu y caiff ACC chwilio person a ganfyddir mewn mangre sy'n destun chwiliad gan ACC, drwy ddibynnu ar warant a ddyroddir o dan adran 8 o Ddeddf 1984, neu baragraff 12 o Atodlen 1 iddi, ar yr amod bod gan ACC achos rhesymol i gredu bod y person yn meddu ar ddeunydd sy'n debygol o fod o werth sylweddol i'r ymchwiliad.

Mae rheoliad 6 yn addasu adran 16(3A) a (3B) o Ddeddf 1984 i'r graddau na chaiff person fynd i fangre na chwilio mangre nad yw wedi ei phennu mewn gwarant pob mangre, na mynd i fangre na chwilio mangre ar ail achlysur nac ar achlysur dilynol, onid yw'r person hwnnw wedi ei awdurdodi yn ysgrifenedig gan berson sydd ar Radd 7 yn y gwasanaeth sifil (neu radd gyfatebol) o leiaf.

Mae rheoliad 7 yn addasu adran 77(3) o Ddeddf 1984, sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas ag ymdrin â chyfaddefiadau gan berson sydd ag anabledd dysgu. Mae'r addasiad a wneir gan rheoliad 7 yn sicrhau na chaiff "independent person" fod yn berson sy'n arfer swyddogaeth a roddir i ACC gan y Rheoliadau hyn.

Mae rheoliad 8 yn darparu na chaiff y swyddogaethau a roddir i ACC gan y Rheoliadau hyn ond cael eu harfer gan berson sydd wedi ei awdurdodi yn ysgrifenedig gan ACC i gynnal ymchwiliadau perthnasol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Regulation 5 provides that WRA may search a person found on a premises which is the subject of a search by WRA in reliance of a warrant issued under section 8 of, or paragraph 12 of Schedule 1 to, the 1984 Act, provided that WRA has reasonable cause to believe that the person is in possession of material which is likely to be of substantial value to the investigation.

Regulation 6 modifies section 16(3A) and (3B) of the 1984 Act to the extent that a person may not enter or search a premises not specified in an all premises warrant, or enter or search a premises on a second or subsequent occasion unless that person has been authorised in writing by a person of at least civil service Grade 7 (or equivalent).

Regulation 7 modifies section 77(3) of the 1984 Act, which makes provision in relation to the treatment of confessions made by a person with a learning disability. The modification made by regulation 7 ensures that an "independent person" cannot be a person exercising a function conferred by these Regulations on WRA.

Regulation 8 provides that the functions conferred on WRA by these Regulations may only be exercised by a person who has been authorised in writing by WRA to conduct relevant investigations.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a Regulatory Impact Assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

2018 Rhif 400 (Cy. 70)

2018 No. 400 (W. 70)

TRETHI, CYMRU

TAXES, WALES

**Rheoliadau Awdurdod Cyllid
Cymru (Pwerau i Ymchwilio i
Droseddau) 2018**

**The Welsh Revenue Authority
(Powers to Investigate Criminal
Offences) Regulations 2018**

Gwnaed 22 Mawrth 2018
Yn dod i rym 1 Ebrill 2018

Made 22 March 2018
Coming into force 1 April 2018

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 114ZA(1) a (2) o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984(1) ac adran 67A(1) a (2) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001(2).

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on them by section 114ZA(1) and (2) of the Police and Criminal Evidence Act 1984(1) and section 67A(1) and (2) of the Criminal Justice and Police Act 2001(2).

Yn unol ag adran 114ZA(4) o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 ac adran 67A(4) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

In accordance with section 114ZA(4) of the Police and Criminal Evidence Act 1984 and section 67A(4) of the Criminal Justice and Police Act 2001, a draft of these Regulations was laid before and approved by a resolution of the National Assembly for Wales.

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdod Cyllid Cymru (Pwerau i Ymchwilio i Droseddau) 2018.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2018.

Title and commencement

1.—(1) The title of these Regulations is the Welsh Revenue Authority (Powers to Investigate Criminal Offences) Regulations 2018.

(2) These Regulations come into force on 1 April 2018.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “ACC” (“*WRA*”) yw Awdurdod Cyllid Cymru;

ystyr “Deddf 1984” (“*the 1984 Act*”) yw Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984;

Interpretation

2. In these Regulations—

“the 1984 Act” (“*Deddf 1984*”) means the Police and Criminal Evidence Act 1984;

(1) 1984 p. 60. Mewnosodwyd adran 114ZA gan adran 185(1) o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (dccc 6).

(2) 2001 p. 16. Mewnosodwyd adran 67A gan adran 185(2) o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016.

(1) 1984 c. 60. Section 114ZA was inserted by section 185(1) of the Tax Collection and Management (Wales) Act 2016 (anaw 6).

(2) 2001 c. 16. Section 67A was inserted by section 185(2) of the Tax Collection and Management (Wales) Act 2016.

ystyr “Deddf 2001” (“*the 2001 Act*”) yw Deddf Cyfiawnder Troseddol a’r Heddlu 2001;

ystyr “ymchwiliad perthnasol” (“*relevant investigation*”) yw ymchwiliad troseddol sy’n ymwneud â mater y mae gan ACC swyddogaethau mewn perthynas ag ef.

Cymhwyso Deddf 1984 a Deddf 2001

3.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3) a rheoliadau 4 i 8, mae darpariaethau Deddf 1984 a gynhwysir yn yr Atodlen i’r Rheoliadau hyn (“y swyddogaethau PACE cymwys”) yn gymwys i ymchwiliadau perthnasol a gynhelir gan ACC.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3) a rheoliadau 4 i 8, pan fo ACC yn arfer unrhyw un neu ragor o’r swyddogaethau PACE cymwys, mae’r darpariaethau a gynhwysir yn Rhan 2 o Ddeddf 2001 yn gymwys i ymchwiliadau perthnasol a gynhelir gan ACC.

(3) Yn ddarostyngedig i reoliad 6, mae darpariaethau Deddf 1984 a Deddf 2001 a gymhwysir gan y Rheoliadau hyn yn cael effaith fel pe bai cyfeiriadau at “WRA” yn cael eu rhoi yn lle cyfeiriadau at “constable”, “police officer” a “the police” (sut bynnag y’u mynegir), ac mae’r darpariaethau hynny i’w dehongli yn unol â hynny.

(4) Mae darpariaethau eraill Deddf 1984, i’r graddau y maent yn ymwneud â’r swyddogaethau PACE cymwys, yn gymwys i ymchwiliadau perthnasol a gynhelir gan ACC.

Defnyddio grym rhesymol

4. Caiff person sy’n arfer swyddogaeth a roddir i ACC gan y Rheoliadau hyn ddefnyddio grym rhesymol, os yw hynny’n angenrheidiol, wrth arfer y swyddogaeth honno.

Chwilio personau

5. Caiff ACC chwilio person—

- (a) pan ganfyddir y person mewn mangre sy’n cael ei chwilio gan ACC drwy ddibynnu ar warant a ddyroddwyd o dan adran 8 o Ddeddf 1984, neu baragraff 12 o Atodlen 1 iddi; a
- (b) pan fo gan ACC achos rhesymol i gredu bod y person hwnnw yn meddu ar ddeunydd sy’n debygol o fod o werth sylweddol (pa un ai ar ei ben ei hun neu ynghyd â deunydd arall) i ymchwiliad perthnasol.

“the 2001 Act” (“*Deddf 2001*”) means the Criminal Justice and Police Act 2001;

“relevant investigation” (“*ymchwiliad perthnasol*”) means a criminal investigation which relates to a matter in relation to which WRA has functions;

“WRA” (“*ACC*”) means the Welsh Revenue Authority.

Application of the 1984 Act and the 2001 Act

3.—(1) Subject to paragraph (3) and regulations 4 to 8, the provisions of the 1984 Act contained in the Schedule to these Regulations (“the applicable PACE functions”) apply to relevant investigations conducted by WRA.

(2) Subject to paragraph (3) and regulations 4 to 8, where WRA exercises any of the applicable PACE functions, the provisions contained in Part 2 of the 2001 Act apply to relevant investigations conducted by WRA.

(3) Subject to regulation 6, the provisions of the 1984 Act and the 2001 Act applied by these Regulations have effect as if references to “constable”, “police officer” and “the police” (however expressed) are substituted with references to “WRA”, and those provisions are to be construed accordingly.

(4) The other provisions of the 1984 Act, in so far as they relate to the applicable PACE functions, apply to relevant investigations conducted by WRA.

Use of reasonable force

4. A person exercising a function conferred on WRA by these Regulations may use reasonable force, if necessary, in the exercise of that function.

Search of persons

5. WRA may search a person where—

- (a) the person is found on premises which are being searched by WRA in reliance on a warrant issued under section 8 of, or paragraph 12 of Schedule 1 to, the 1984 Act; and
- (b) WRA has reasonable cause to believe that person to be in possession of material which is likely to be of substantial value (whether by itself or together with other material) to a relevant investigation.

Addasu adran 16 o Ddeddf 1984 (gweithredu gwarantau)

6. Mae adran 16 o Ddeddf 1984(1) (gweithredu gwarantau) wedi ei haddasu fel a ganlyn—

(a) yn lle is-adran (3A) rhodder—

“(3A) If the warrant is an all premises warrant, no premises which are not specified in it may be entered or searched by a person exercising WRA functions unless that person has been authorised in writing by another person exercising WRA functions of at least Grade 7 (or equivalent).”;

(b) yn lle is-adran (3B) rhodder—

“(3B) No premises may be entered or searched by a person exercising WRA functions for the second or any subsequent time under a warrant which authorises multiple entries unless that person has been authorised in writing by another person exercising WRA functions of at least Grade 7 (or equivalent).”

Addasu adran 77(3) o Ddeddf 1984 (diffiniad o “independent person”)

7. Mae adran 77(3) o Ddeddf 1984(2) (diffiniad o “independent person”) wedi ei haddasu i’r graddau bod y diffiniad o “independent person” yn cynnwys person sy’n arfer swyddogaeth a roddir i ACC gan y Rheoliadau hyn.

Awdurdodiad

8. Nid yw’r swyddogaethau a roddir i ACC gan y Rheoliadau hyn ond yn arferadwy gan bersonau sydd ag awdurdodiad ysgrifenedig gan ACC i gynnal ymchwiliadau perthnasol.

Modification of section 16 of the 1984 Act (execution of warrants)

6. Section 16 of the 1984 Act(1) (execution of warrants) is modified as follows—

(a) for subsection (3A) substitute—

“(3A) If the warrant is an all premises warrant, no premises which are not specified in it may be entered or searched by a person exercising WRA functions unless that person has been authorised in writing by another person exercising WRA functions of at least Grade 7 (or equivalent).”;

(b) for subsection (3B) substitute—

“(3B) No premises may be entered or searched by a person exercising WRA functions for the second or any subsequent time under a warrant which authorises multiple entries unless that person has been authorised in writing by another person exercising WRA functions of at least Grade 7 (or equivalent).”

Modification of section 77(3) of the 1984 Act (definition of “independent person”)

7. Section 77(3) of the 1984 Act(2) (definition of “independent person”) is modified to the extent that the definition of “independent person” includes a person exercising a function conferred on WRA by these Regulations.

Authorisation

8. The functions conferred on WRA by these Regulations are only exercisable by persons with written authorisation from WRA to conduct relevant investigations.

Mark Drakeford

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, un o Weinidogion Cymru
22 Mawrth 2018

Cabinet Secretary for Finance, one of the Welsh Ministers
22 March 2018

(1) Mewnosodwyd adran 16(3A) a (3B) gan adrannau 113(9)(a) a 114(8)(b) o Ddeddf Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a’r Heddlu 2005 (p. 15).

(2) Diwygiwyd adran 77 gan baragraff 48 o Ran 4 o Atodlen 36 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (p. 44). Mae diwygiad arall i’r adran hon ond nid yw’n berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(1) Section 16(3A) and (3B) were inserted by sections 113(9)(a) and 114(8)(b) of the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15).

(2) Section 77 was amended by paragraph 48 of Part 4 of Schedule 36 to the Criminal Justice Act 2003 (c. 44). There is another amendment to this section but it is not relevant to these Regulations.

Y darpariaethau cymwys yn Neddf 1984

- (a) adran 8 (pŵer ynad heddwch i awdurdodi mynediad i fangre a'r i chwilio)(1);
- (b) adran 9 (darpariaethau arbennig ynglŷn â mynediad)(2) ac Atodlen 1 (gweithdrefn arbennig)(3);
- (c) adran 15 (gwarantau chwilio – rhagofalon)(4);
- (d) adran 16 (gweithredu gwarantau) yn ddarostyngedig i'r addasiadau yn rheoliad 6;
- (e) adran 19 (pŵer cyffredinol i ymafael etc.)(5);
- (f) adran 20 (estyn pwerau i ymafael i wybodaeth gyfrifiadurol)(6);
- (g) adran 21 (mynediad a chopïo)(7);
- (h) adran 22(1) i (4) a (7) (cadw)(8);
- (i) adran 60B (hysbysu am benderfyniad i beidio ag erlyn person a gyfwelwyd)(9);
- (j) adran 66 (codau ymarfer)(10);
- (k) adran 67 (codau ymarfer – atodol)(11);

Applicable provisions of the 1984 Act

- (a) section 8 (power of justice of the peace to authorise entry and search of premises)(1);
- (b) section 9 (special provisions as to access)(2) and Schedule 1 (special procedure)(3);
- (c) section 15 (search warrants – safeguards)(4);
- (d) section 16 (execution of warrants) subject to the modifications in regulation 6;
- (e) section 19 (general power of seizure etc.)(5);
- (f) section 20 (extension of powers of seizure to computerised information)(6);
- (g) section 21 (access and copying)(7);
- (h) section 22(1) to (4) and (7) (retention)(8);
- (i) section 60B (notification of decision not to prosecute person interviewed)(9);
- (j) section 66 (codes of practice)(10);
- (k) section 67 (codes of practice – supplementary)(11);

-
- (1) Diwygiwyd adran 8 gan adrannau 113(3), (4) a 114(2) o Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005, a pharagraff 43(3) o Ran 3 o Atodlen 7 iddi, ac adran 86 o Ddeddf Cyllid 2007 (p. 11). Mae diwygiadau eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
 - (2) Diwygiwyd adran 9 gan Ddeddf Llysoedd 2003 (p. 39). Mae diwygiad arall i'r adran hon ond nid yw'n berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
 - (3) Diwygiwyd Atodlen 1 gan baragraff 14 o Ran 2 o Atodlen 2 i Ddeddf 2001; paragraff 6 o Atodlen 4 i Ddeddf Llysoedd 2003; adran 113(10) i (14) o Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 a pharagraff 43(13) o Ran 3 o Atodlen 7 iddi; ac adran 82(3) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20). Mae diwygiad arall i'r adran hon ond nid yw'n berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
 - (4) Diwygiwyd adran 15 gan adran 113(6) i (8) a 114(4) i (7) o Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005, a pharagraff 1 o Ran 2 o Atodlen 17 iddi, ac erthygl 7 o Orchymyn Deddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (Diwygio) 2005 (O.S. 2005/3496).
 - (5) Diwygiwyd adran 19 gan baragraff 13(1) a (2)(a) o Ran 2 o Atodlen 2 i Ddeddf 2001.
 - (6) Diwygiwyd adran 20 gan baragraff 13(1) a (2)(a) o Ran 2 o Atodlen 2 i Ddeddf 2001.
 - (7) Diwygiwyd adran 21 gan baragraffau 1 a 3 o Atodlen 1 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003.
 - (8) Mewnosodwyd adran 22(7) gan baragraffau 1 a 4 o Atodlen 1 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003.
 - (9) Mewnosodwyd adran 60B gan adran 77 o Ddeddf Plismona a Throsedd 2017 (p. 3).
 - (10) Diwygiwyd adran 66 gan adran 57(4) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000 (p. 43). Mae diwygiadau eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
 - (11) Diwygiwyd adran 67 gan Ran 1 o Atodlen 37 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003. Mae diwygiadau eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

-
- (1) Section 8 was amended by sections 113(3), (4) and 114(2) of, and paragraph 43(3) of Part 3 of Schedule 7 to, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 and section 86 of the Finance Act 2007 (c. 11). There are other amendments but none is relevant to these Regulations.
 - (2) Section 9 was amended by the Courts Act 2003 (c. 39). There is another amendment to this section but it is not relevant to these Regulations.
 - (3) Schedule 1 was amended by paragraph 14 of Part 2 of Schedule 2 to, the 2001 Act; paragraph 6 of Schedule 4 to the Courts Act 2003; section 113(10) to (14) of, and paragraph 43(13) of Part 3 of Schedule 7 to, the Serious Organised Crime and Police Act 2005; and section 82(3) of the Deregulation Act 2015 (c. 20). There is another amendment to this section but it is not relevant to these Regulations.
 - (4) Section 15 was amended by section 113(6) to (8) and 114(4) to (7) of, and paragraph 1 of Part 2 of Schedule 17 to, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 and article 7 of the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (Amendment) Order 2005 (S.I. 2005/3496).
 - (5) Section 19 was amended by paragraph 13(1) and (2)(a) of Part 2 of Schedule 2 to the 2001 Act.
 - (6) Section 20 was amended by paragraph 13(1) and (2)(a) of Part 2 of Schedule 2 to the 2001 Act.
 - (7) Section 21 was amended by paragraphs 1 and 3 of Schedule 1 to the Criminal Justice Act 2003.
 - (8) Section 22(7) was inserted by paragraphs 1 and 4 of Schedule 1 to the Criminal Justice Act 2003.
 - (9) Section 60B was inserted by section 77 of the Policing and Crime Act 2017 (c. 3).
 - (10) Section 66 was amended by section 57(4) of the Criminal Justice and Court Services Act 2000 (c. 43). There are other amendments but none is relevant to these Regulations.
 - (11) Section 67 was amended by Part 1 of Schedule 37 to the Criminal Justice Act 2003. There are other amendments but none is relevant to these Regulations.

(l) adran 77 (ymdrin â chyfaddefiadau gan bersonau sydd ag anabledd dysgu) yn ddarostyngedig i'r addasiad yn rheoliad 7.

©[©] Hawlfraint y Goron 2018

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

(l) section 77 (treatment of confessions by persons with a learning disability) subject to the modification in regulation 7.

© Crown copyright 2018


Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£6.00

W201803221004 03/2018

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2018/400>

ISBN 978-0-348-20223-6



9 780348 202236